

Prosiect Chwaraeon Lleol "Bootaful Sports 4 All" yn cael hwb Budd Cymunedol gan dîm Cyfoethogi Cymunedau Cartrefi'r Fro

Lansiodd Sue Watts siop rydd, Bootaful Sports 4 All, o'i chartref yn y Barri ym mis Mehefin 2020 ar ôl iddi gael ei hysbrydoli gan fenter debyg yn Abertawe.

Mae'n casglu offer chwaraeon plant – sef esgidiau a bŵts – y mae'n eu diheintio, yn eu rhoi mewn bagiau ac yn eu labelu yn barod i blant a theluoedd eu casglu.

Dywedodd Ms Watts, sy'n gynorthwy-ydd cymorth dysgu yn Ysgol Gynradd Romilly ac sydd wedi gweithio fel cynorthwy-ydd ffitio esgidiau plant yn Clarks yn y gorffennol: "Mae cynifer o deuluoedd yn ei chael hi'n anodd fforddio dillad chwaraeon plant.

"Mae traed plant yn tyfu mor gyflym ac mae'n anodd cadw i fyny – os oes rhywun sydd eisiau rhoi cynnig ar gamp newydd ond dydy e ddim yn siŵr, yna gall hyn helpu i leihau'r gost."

Mae Bootaful Sports 4 All wedi cael cefnogaeth gan Gyngor Bro Morgannwg a Pendragon ac mae bellach yn symud o ystafell gefn Ms Watt i sied wedi'i dylunio'n arbennig: The Sports Hut.



Dywedodd Mark Ellis, Swyddog Cyfoethogi Cymunedau a Chynnwys y Gymuned gyda Chyngor Bro Morgannwg: "Cysylltodd Sue â mi gyda'r syniad ar gyfer y prosiect hwn ac roedd y Tîm Cyfoethogi Cymunedau o'r farn bod hwn yn gyfle budd cymunedol gwych.

"Gan weithio ar y cyd â Pendragon, ariannodd y tîm The Sports Hut gan roi'r arwyddion hefyd. Rwy'n credu ei fod yn gysyniad gwych ac yn ffordd wych o annog teuluoedd a phlant i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Roeddem yn falch iawn o allu helpu i hyrwyddo gwaith da Sue fel gwirfoddolwr."

Mae The Sports Hut eisoes yn llwyddiant ysgubol ac mae ganddo **Grŵp Facebook – 'Bootaful Sports 4 All'** gyda mwy na 400 o aelodau.

Mae Bootaful Sports 4 All wedi cael cefnogaeth gan Gyngor Bro Morgannwg a Pendragon ac mae bellach yn symud o ystafell gefn Ms Watt i sied wedi'i dylunio'n arbennig: The Sports Hut.

Prosiect Chwaraeon Lleol "Bootaful Sports 4 All" yn cael hwb Budd Cymunedol gan dîm Cyfoethogi Cymunedau Cartrefi'r Fro



Mae The Sports Hut yn cynnig esgidiau chwaraeon am ddim i blant – gan gynnwys esgidiau ymarfer astro, esgidiau â stydiau, ac esgidiau rygbi – ac offer chwaraeon fel sanau, offer hyfforddi, ac offer amddiffynnol.

Mae Cyfrinfa Clybiau Rygbi Cymru Rhif 9986 hefyd wedi cefnogi'r prosiect gan gyfrannu at oleuadau'r cwt a chynhyrchion glanhau ar gyfer diheintio nwyddau a roddir.

"Rwy'n hapus i fod yno i deuluoedd a phlant sydd fy angen," ychwanegodd Ms Watts.

"Rydyn ni wedi cael llawer o gefnogaeth ac mae'n wych bod cynifer o bobl wedi cymryd rhan." Mae The Sports Hut yn cynnig esgidiau chwaraeon am ddim i blant – gan gynnwys esgidiau ymarfer astro, esgidiau â stydiau, ac esgidiau rygbi – ac offer chwaraeon fel sanau, offer hyfforddi, ac offer amddiffynnol.

Mae Cyfrinfa Clybiau Rygbi Cymru Rhif 9986 hefyd wedi cefnogi'r prosiect gan gyfrannu at oleuadau'r cwt a chynhyrchion glanhau ar gyfer diheintio nwyddau a roddir.